CANLYNIAD Y BROSES GAFFAEL:
CANOLFAN FEDDYGOL PONT-Y-PŴL

CWESTIYNAU CYFFREDIN

C1 Beth mae'r canlyniad yn ei olygu i mi a/neu fy nheulu?

Bydd pob claf presennol yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda Chanolfan Feddygol Pont-y-pŵl, o dan yr enw newydd, Practis Grŵp Tŷ Afon. O 1 Ebrill 2027, byddwch yn parhau i gael mynediad at eich holl anghenion gofal iechyd o'r safleoedd canlynol;

- Prif feddygfa Pont-y-pŵl, Oddi ar Bont y Dref, Pont-y-pŵl;
- Canolfan Feddygol New Inn, The Walk, New Inn;
- Meddygfa Goetre, 35 Highfield, Penperlleni.

Bydd rhifau ffôn cleifion hefyd yn aros yn yr un fath, a byddwch yn parhau i allu cysylltu â'ch practis meddyg teulu ar 01495 763141 (prif), 01495 763141 (New Inn), 01873 880220 (Goytre).

C2 A yw'r practis yn newid ei enw?

Ydy, o 1 Ebrill 2027, bydd y practis yn cael ei adnabod fel practis Grŵp Tŷ Afon. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich cofrestriad gyda'r practis.

C3 A fydda i'n dal yn gallu gweld fy Meddyg Teulu arferol neu Weithiwr Proffesiynol Gofal Iechyd arall ym Meddygfa Grŵp Tŷ Afon?

Bydd yr holl staff, clinigwyr a staff gweinyddol/derbynfa a gaiff eu cyflogi gan y practis yn aros ym Mhractis Grŵp Tŷ Afon o dan reolaeth newydd.

C4 A fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydw i'n archebu fy mhresgripsiwn amlroddadwy misol?

Nid yw'r partneriaid newydd yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol. Mae'r partneriaid yn dymuno sicrhau cleifion y bydd unrhyw newidiadau i brosesau yn cael eu gwneud er budd cleifion. Bydd y partneriaid yn ymgysylltu â chynrychiolwyr cleifion ac yn cyfathrebu unrhyw newidiadau'n glir.

C5 A fydd fy ngofal meddygol neu driniaeth bresennol yn cael ei amharu?

Na. Bydd yr holl ofal cleifion yn parhau ac mae'r partneriaid newydd yn ymroddedig i sicrhau bod gofal rhagorol yn cael ei ddarparu i gleifion.

C6 Beth os nad ydw i eisiau aros wedi cofrestru gyda Practis Grŵp Tŷ Afon? Sut ydw i'n cofrestru gyda darparwr arall os ydw i'n dewis gwneud hynny?

Gallwch ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos arall os ydych yn dymuno gwneud hynny, ac ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffiniau'r practis dan sylw. Mae Practis Grŵp Abersychan, Canolfan Iechyd Panteg a Phractis Meddygol Trosnant Lodge yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i gleifion sy'n byw ym Mhont-y-pŵl a'r ardaloedd cyfagos, fodd bynnag bydd angen cadarnhau'r union ffiniau wrth ofyn am gofrestru yn y practis.

Practis Grŵp Abersychan	01495 772239
Canolfan Iechyd Panteg	01495 763608
Meddygfa Trosnant Lodge	01495 762709

Gallwch gysylltu â'r feddygfa o'ch dewis yn uniongyrchol a gwneud cais i gofrestru gyda hwy, a byddant yn gallu eich cefnogi drwy'r broses gofrestru. Fel arall, gall aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol eich cefnogi gyda hyn, os yw'n well gennych. Gallwch ffonio 01495 241254 neu 01495 241246.

C6 A allaf wneud unrhyw beth i helpu?

Y cyngor cyffredinol i unrhyw un sy'n ystyried gwneud apwyntiad gyda'r practis fyddai ystyried:

- A oes angen i mi weld meddyg, neu a oes modd i mi ofyn am weld aelod gwahanol o'r tîm gofal iechyd, ee nyrs practis, uwch ymarferydd ac ati?
- A oes modd i mi ymweld â fferyllfa yn hytrach na'r practis?
- Oeddech chi'n gwybod am Gynllun Anhwylderau Cyffredin Fferyllfeydd Cymunedol?

Mae'r cynllun anhwylderau cyffredin fferylliaeth gymunedol yn gynllun ar gyfer cleifion sy'n gallu ymgynghori â fferyllfa gymunedol sy'n rhan o'r cynllun, yn hytrach na'u meddyg teulu. Mae **rhestr benodol** ar gael o anhwylderau cyffredin na fyddai angen i nyrs neu feddyg eu gweld o bosibl. Bydd y fferyllydd yn rhoi meddyginiaeth o fformiwlari y cytunwyd arno, yn rhoi cyngor neu'n cyfeirio'r claf at y meddyg teulu os oes angen. **Darperir meddyginiaethau am ddim.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn eich fferyllfa leol neu drwy https://abuhb.nhs.wales/hospitals/pharmacies-chemists/common-ailments-service/